# Cyngor Cymuned Y Bontnewydd

**COFNODION CYFARFOD MISOL RHAGFYR 3 2020**

3 Rhagfyr 2020 7.00 yh drwy gyfrwng fideo

## 1. YMDDIHEURIADAU

Emyr Williams

**Presennol:** Dafydd Iwan, Math Williams, Erddyn Davies, Huw Orwig, Gruff Williams, Wynn Roberts, Peter Garlick, Dylan Morgan

**Cadeirio:** Geraint Strello

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

## 2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Dafydd Iwan ddiddordeb yn eitem 4.1 am ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Age Cymru Gwynedd a Môn.

## 3. CADARNHAU COFNODION 5 TACHWEDD 2020

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 5 Tachwedd 2020 ond gofynnodd y Cynghorydd Math Williams i'r cofnodion gael eu haddasu fel bod ei adroddiad ar gyfer Y Ganolfan yn cael ei fewnosod ar gyfer eitem 4.2.

Cynnig: Wynn Roberts
Eilio: Huw Orwig

## 4. MATERION SEFYDLOG

### 4.1 Adroddiad gan y Cynghorydd Peter Garlick

**Dosbarthu bwyd**

Dydd Gwener 28 Tachwedd dosbarthwyd bwyd Age Cymru o gwmpas ward Bontnewydd. Mi roedd hyn yn llwyddiannus ar y cyfan. Mae'n bosibl fod un neu ddau berson wedi eu methu, ac os oedd cwpl gydag un partner dros 70 a'r llall o dan, teimlwyd mai'r peth iawn oedd rhoi i'r ddau.

Bydd dosbarthiad pellach ddydd Gwener 4 Rhagfyr 2020, a'r niferoedd yn debygol o fod rhywbeth tebyg – 86.

**Arafu Traffig Llanfaglan**

Disgwylir clywed beth yw adborth trigolion Llanfaglan am y dulliau arafu traffig posibl gan Gyngor Gwynedd.

**Ffordd Castellmai at Blas Glanrafon**

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymateb drwy ddweud nad mater i'r adran briffyrdd ydyw, ond maent wedi pasio'r mater ymlaen at adran hawliau tramwy Cyngor Gwynedd.  Disgwylir ymateb.

Mae'r ffordd ym mhlwyf Waunfawr yn bennaf, ac mae Cyngor Cymuned Waunfawr wedi dweud y byddant yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd hefyd i ofyn am welliannau.

Cytunwyd i ddisgwyl ymateb gan Gyngor Gwynedd ac yna pasio hwnnw ymlaen at Gyngor Cymuned Waunfawr, gan fod hwn yn fater iddynt hwy hefyd.

**Jones Brothers**

Mae llifogydd wedi codi mewn dau le yn Lôn Llanfaglan.  Mae Jones Bros angen hawl i fynd ar y tir cyfagos er mwyn datrys y broblem.  Wedi cael yr hawl eu bwriad fydd defnyddio pympiau i gadw'r dŵr dan reolaeth tan gorffen gwaith ar y ffordd.

**Ail-wynebu'r briffordd trwy bentref Bontnewydd**

Mae'r Asiantaeth Priffyrdd yn bwriadu cychwyn ar y gwaith ail-wynebu wythnos nesaf - rhwng 18:00 a 02:00.

**4.2 Y Ganolfan, Bontnewydd**

Toiledau wedi cau eto, ond does dim ateb amlwg i'r broblem.  Mae'n bosibl fod cynllun gwreiddiol pibellau'r toiled yn ddiffygiol.

Cytunwyd i ofyn i GEWS edrych ar y mater a dod i gasgliad ar beth yn union yw'r broblem.

Derbyniwyd yr adroddiad ariannol canlynol:-

Arian yn y banc: £1340
Arian mewn llaw: £0
Dyled i'r cwmni nwy: £354 (mae'r debid uniongyrchol wedi codi i £175/mis; a thalwyd £200 ychwanegol i ostwng y ddyled a oedd wedi cyrraedd £760).
Credid gan y cwmni trydan: £220
Incwm disgwyliedig y mis yma: £544
Gwariant disgwyliedig y mis yma: £520

Derbyniwyd dyfynbris o £5740 gan Gemini Solar am osod paneli PV ar do'r Ganolfan.

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

### 5.1 Lês Cae Stanley

Cytunwyd fod y Clwb yn talu costau cyfreithiol y les. Mae Pritchard Jones Lane, Cyfreithwyr wedi cytuno gwneud y gwaith am bris gostyngol o tua £200 a taw a threuliau, yn hytrach na'r pris arferol o tua £400-£500 ond gall fod yn fwy os oes angen cynllun wedi ei baratoi gan syrfëwr, gan fod hyn yn angenrheidiol ar gyfer les 25 mlynedd.

Cytunodd y Cynghorydd Erddyn Davies i fynd â chynllun draw a gofyn a yw'n ddigonol, fel na fyddai angen gwneud cynllun syrfëwr o'r newydd.
.

### 5.2 Gwasanaeth Torri Gwair Cyngor Gwynedd

Mae amserlen hyn wedi llithro, a bydd Cyngor Gwynedd yn cysylltu tua dechrau'r flwyddyn newydd.

### 5.3 Cynllun Arafu Traffig Llanfaglan

Trafodwyd hyn yn Eitem 4.1 uchod.

### 5.4 Ffordd Castellmai at Blas Glanrafon

Trafodwyd hyn yn Eitem 4.1 uchod.

### 5.5 Cynllun Dosbarthu Anrhegion

Bu cyfarfod o'r is-bwyllgor er mwyn trafod ymhellach.

Penderfynwyd gwneud dim am eleni, oherwydd wedi trafodaeth cytunwyd y byddai'n bosibl defnyddio'r pres mewn ffordd well.

Er enghraifft, byddai rhoi pres ar gyfer aelodaeth o'r Urdd neu sefydliadau tebyg i'r disgyblion yn well na rhoi anrheg. Cytunwyd i ystyried hyn unwaith eto ar ddiwedd y flwyddyn addysgol.

## 6. MATERION ARIANNOL

### 6.1 Cyflog a Chostau Clerc Tachwedd 2020

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyflog** £232.20 y mis
**TWE** £46.80 y mis

**Cyfanswm Gros** £279.00 y mis
**Cyfanswm Net** £232.20 y mis

**6.2** Cytunwyd i gadw Prasespt 2021/22 yr un fath, sef £18,500

Cynnig: Erddyn Davies
Eilio: Math

**6.3** Balans y cyfrif banc 3 Rhagfyr 2020, £33,586.70

## 7. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Cais Cynllunio Llain Meddygon. Mae'r Cynghorydd Peter Garlick wedi derbyn manylion y cais, ond nid ydyw wedi cyrraedd y Cyngor cymuned eto. Mae angen ymateb iddo erbyn diwedd Rhagfyr. Cytunwyd i aros i dderbyn manylion y cais ac ymateb drwy ddanfon sylwadau drwy e-bost.

## 8. GOHEBIAETH

### Grant cae chwarae

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig grant ar gyfer caeau chwarae. Mae angen gwneud cais a chwblhau gwario'r grant erbyn 31 Mawrth 2020.

Does dim angen ail wneud nag adnewyddu'r offer ym maes chwarae Glan Beuno.

Penderfynwyd peidio gwneud cais oherwydd doedd dim tystiolaeth fod angen offer newydd yno.

## 9. MATERION ERAILL

### 9.1 Pwyllgor Arfon Dwyfor Un Llais Cymru

Mynychodd y Clerc bwyllgor Arfon Dwyfor Un Llais Cymru, ac fe drafodwyd gweithrediadau cynghorau cymuned o dan effeithiau COVID-19, a bod cyrsiau hyfforddiant Un Llais Cymru ar gael o bell.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 3 Chwefror 2021.

### 9.2 Ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ar Addysg Ôl-16 Arfon

Mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar y ddarpariaeth addysg ôl-16 yng Ngwynedd.

Cytunwyd y dylid cynnig sylwadau fel unigolion yn hytrach nag fel Cyngor cymuned.

### 9.3 Cwt Eglwys Sant Baglan

Credir fod hen gwt cadw ceffyl sy'n rhan o Eglwys Sant Baglan yn parhau yn eiddo i'r Cyngor Cymuned. Mae wedi ei gofrestru ac mae drws y cwt wedi ei gloi ond does dim byd yn cael ei gadw ynddo. Mae'n debyg fod drws newydd wedi cael ei osod ar y cwt yn weddol ddiweddar.

Gofynnwyd i'r Clerc holi Cyfeillion Eglwysi Digyfaill a Chyngor Gwynedd er mwyn cael gwell dealltwriaeth ar y sefyllfa berchnogaeth

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf – 4 Chwefror 2020, 7:00 yr hwyr**